Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Lleoliad:

Fideogynhadledd drwy Zoom

Dyddiad: Dydd Llun, 4 Hydref 2021

Amser: 13.28 – 17.44

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/12445

O bell

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau o'r Senedd:	Jenny Rathbone AS (Cadeirydd) Jane Dodds AS Altaf Hussain AS Sarah Murphy AS Sioned Williams AS Ken Skates AS
Tystion:	Steffan Evans, Sefydliad Bevan Cerys Furlong, Chwarae Teg Lisa Hayward, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Sara Burch, Undeb Credyd Gateway Leanne Herberg, Undeb Credyd Caerdydd a'r Fro Lee Tiratira, Tim Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig & Ieuenctid Cymru Claire Savage, Undebau Credyd Cymru Karen Davies, Purple Shoots

	Rob Simkins, Shelter Cymru Daniel Arrowsmith, Cymdeithas Undebau Credyd Prydain
Staff y Pwyllgor:	Rhys Morgan (Clerc) Claire Fiddes (Ail Glerc) Yan Thomas (Dirprwy Glerc) Aled Evans (Cynghorydd Cyfreithiol)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

1.2 Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi cytuno, pe bai hi'n gadael y cyfarfod am unrhyw reswm, y byddai Sarah Murphy AS yn Gadeirydd Dros Dro yn unol â Rheol Sefydlog 17.22.

1.3 Ni chafwyd ymddiheuriadau gan yr Aelodau. Datganodd Jenny Rathbone AS a Sarah Murphy AS fuddiant ar gyfer eitem 4 gan fod y ddwy yn aelodau o undebau credyd.

2 Dyled a'r pandemig - gwasanaethau cyhoeddus

2.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Will Henson, Cartrefi Cymunedol Cymru.

2.2 Cafodd yr Aelodau dystiolaeth yn ymwneud â dyled a’r pandemig. Yn ystod y sesiwn, cytunodd Shelter Cymru:

- I rannu ei adroddiad 'Life in Lockdown in Wales'.
- I ddarparu tystiolaeth bellach ar sut mae’n cyfeirio pobl at y gwasanaethau a'r help arbenigol mae’n eu darparu.
- I ddarparu manylion am yr ohebiaeth y mae wedi'i chael gyda heddluoedd a Rhentu Doeth Cymru ynghylch troi allan anghyfreithlon.
- I rannu rhagor o wybodaeth am y gwersi a ddysgwyd o'r moratoriwm ar droi allan anghyfreithlon a chasglu dyled.

Cytunodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru:

- I ysgrifennu at y Pwyllgor ynghylch nifer y tenantiaid cyngor sydd wedi mynd i ddyled gyda'u rhent ers y pandemig.

3 Dyled a'r pandemig – effaith ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig

3.1 Cafodd yr Aelodau dystiolaeth yn ymwneud â dyled a'r pandemig. Yn ystod y sesiwn, cytunodd Chwarae Teg:

- I rannu gwybodaeth am ddyled ar draws tai a'r dreth gyngor a sut mae'r ystadegau'n rhannu'n grwpiau gwarchodedig.

4 Dyled a'r pandemig – credyd fforddiadwy

4.1 Cafodd yr Aelodau dystiolaeth yn ymwneud â dyled a'r pandemig.

5 Dyled a'r pandemig – melinau trafod

5.1 Cafodd yr Aelodau dystiolaeth yn ymwneud â dyled a'r pandemig.

6 Papurau i'w nodi

6.1 Gohebiaeth gan y Gender Network ynghylch cydraddoldeb rhywiol – 15 Medi 2021

6.1a Nododd yr Aelodau yr ohebiaeth.

6.2 Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch diogelu gwybodaeth ddirgel – 21 Medi 2021

6.2a Nododd yr Aelodau yr ohebiaeth.

6.3 Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd – 22 Medi.

6.3a Nododd yr Aelodau yr ohebiaeth.

6.4 Ymateb i ymgynghoriad Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Chanolfan Llywodraethiant Cymru

6.4a Nododd yr Aelodau yr ymateb i'r ymgynghoriad.

7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

7.1 Derbyniwyd y cynnig.

8 Ystyried tystiolaeth - dyled a'r pandemig

8.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a gafwyd o dan eitemau 2, 3, 4 a 5. Cytunodd yr Aelodau i ysgrifennu at Cartrefi Cymunedol Cymru a CLlLC i gael rhagor o wybodaeth.

9 Ystyriaeth o Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Lluoedd Arfog

9.1 Trafododd ac ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad drafft a'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol. Yn amodol ar fân newidiadau, bydd yn cytuno ar yr adroddiad yn electronig.